Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	26 Gorffennaf 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Cynghorydd Gill German, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd / Geraint Davies, Pennaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad	James Curran, Prif Reolwr – Cymorth i Ysgolion
Teitl	Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Band B

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ystyried y canfyddiadau o'r adolygiad gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg o broses flaenoriaethu fel y gofynnwyd gan y Cyngor yn Ionawr 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cafodd rhybudd o gynnig ei ystyried gan y Cyngor yn Ionawr 2022 ynglŷn â'r broses flaenoriaethu ar gyfer Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif yn flaenorol). Penderfynodd y Cyngor ofyn i'r Bwrdd Moderneiddio Addysg adolygu'r arolygon cyflwr o bob ysgol i weld pa un a oedd y rhai hynny wedi eu newid yn sylweddol i gyflwr ystad yr ysgol a fyddai'n galw i gwestiwn bod trefn blaenoriaeth presennol yr ysgol yn parhau'n gyfredol a chywir. Hefyd cytunwyd y gellir adrodd ar ganlyniad yr adolygiad hwn i'r Cabinet ynghyd ag unrhyw argymhellion sydd gan y Bwrdd Moderneiddio Addysg o ganlyniad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau barn y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg nad oedd unrhyw newid sylweddol wedi digwydd mewn perthynas â chyflwr adeiladau ysgol a bod trefn blaenoriaeth presennol ysgolion yn parhau'n gyfredol ac yn gywir.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar gais y Cyngor, roedd y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi cwrdd ar 27 Ebrill i adolygu'r broses flaenoriaethu ar gyfer penderfynu ar flaenoriaethau Band B o'r Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Roedd y Bwrdd wedi ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion ar y broses a gynhelir gan Sir Ddinbych i ddatblygu ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ym Mand B. Mynychodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau (sy'n Cadeirio'r Bwrdd) y cyfarfod, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau gynt, Pennaeth Cyllid, Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai, Pennaeth Addysg a'r Prif Reolwr - Cefnogi Ysgolion.

4.2. Roedd y Bwrdd yn ystyried sut roedd y broses flaenoriaethu wedi datblygu ac wedi adolygu'r union ddyddiad cyflwr i holl ysgolion a'r rhai a ystyrir fel rhan o'r maes adolygu. Roedd y Bwrdd o'r farn nad oedd unrhyw newid sylweddol wedi digwydd o ran cyflwr ysgolion yn ystod y cyfnod pan gafodd yr ysgolion eu hystyried i ddechrau yn 2016 a phenderfyniad blaenoriaethau presennol a fyddai'n effeithio ar y blaenoriaethau a ddewiswyd.

4.3. Roedd y Bwrdd hefyd yn ystyried y buddsoddiad yn strwythur adeiladau ysgolion drwy'r dyraniad cyfalaf ar gyfer Cynnal a Chadw Adeiladau. Er mai prif ysgogwr ar gyfer newid mewn blynyddoedd diweddar oedd buddsoddiad ar raddfa fawr drwy Fand A, byddai'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol hwn yn cynorthwyo i wneud gwahaniaeth i gyflwr cyffredinol ysgolion Sir Ddinbych. Mae cyflwr adeiladau ysgolion yn cael ei adolygu yn rheolaidd ac felly mae'n bosibl na fydd buddsoddiad mewn cynlluniau fel newid ffenestri neu do yn cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol yng nghyflwr adeiladau ysgolion nes y cylch nesaf o arolygon.

4.4. Roedd y Bwrdd hefyd yn nodi bod y Rhybudd o Gynnig wedi tarddu o bryderon am gyflwr Ysgol Uwchradd Prestatyn. Roedd y Bwrdd yn nodi fod y gwaith wedi'i gynnal gyda'r ysgol i wneud y defnydd gorau o fuddsoddiad cyfalaf o'r cynllun Cynnal a Chadw Adeiladau ac roedd gwybodaeth bellach wedi'i chasglu ynglŷn â hyn yn Atodiad 2.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y cynigion yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â'r flaenoriaeth ar gyfer pobl ifanc - o ran gwneud Sir Ddinbych yn lle y bydd ar bobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny. Yn benodol, bydd Sir Ddinbych yn gallu parhau i foderneiddio ysgolion drwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac, os ydym yn llwyddo, rydym ni'n rhagweld y bydd gennym ni gyfleusterau ysgol modern sy'n gwella dysgu disgyblion ymhellach.

5.2. Gall prosiectau Band B a'r hyn a wneir gydag unrhyw safle gwag wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd nod y Cyngor o fod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Drwy wneud hyn bydd hefyd yn dangos cyfraniad clir at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol - a ddatganwyd gan y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2019. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Cynllun Ffyniant i Bawb: Mae Cynllun Cymru Carbon Isel (2019) wedi targedu i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-garbon net erbyn 2030 ac mae datgarboneiddio â'r potensial i fod yn ystyriaeth allweddol yn y rhaglen gyllid Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Drwy ddysgu gwersi prosiectau Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif a thrwy ddatblygu, darparu a rheoli adeiladau di-garbon/carbon isel sydd mewn defnydd, gall prosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif leihau costau rhedeg yr Awdurdod o ran arian a charbon ynghyd â darparu patrwm i amgylchoedd dysgu eraill.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gwerth y gwaith cam cyntaf i gael ei gymeradwyo yw £51.9 miliwn, a bydd Sir Ddinbych yn ariannu £15.8 miliwn drwy ei Gynllun Corfforaethol. Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, byddai datblygiad y Rhaglen yn parhau i greu gwaith i dimau eraill yn y Cyngor, yn enwedig Dylunio ac Adeiladu. Mae costau'r timau hyn wedi'u cynnwys yn y costau amlinellol cyfan.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gan fod yr argymhellion yn cadarnhau'r penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, nid yw Asesiad o'r Effaith ar Les ychwanegol nac adolygiad wedi cael ei gynnal.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â'r Cynghorwyr yn ystod cyfarfod anffurfiol ym mis Rhagfyr 2016. Yna cafodd y blaenoriaethau a nodwyd eu cynnwys yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2017. Cafodd trafodaethau eu cynnal gyda rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr 2019 a chynhaliwyd trafodaethau pellach gyda Phenaethiaid cyn cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig ym mis Medi 2020. Bydd gan brosiectau unigol ffocws clir ar gyfathrebu a deialog gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae costau rhaglen Band B wedi eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar gynlluniau presennol. Mae hwn yn amlwg yn ymrwymiad ariannol mawr ac mae'n braf gweld y dull gofalus ac ystyriol sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn. Bydd ymrwymiadau ariannol pellach yn cael eu cynnwys fel bo'n briodol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg bresennol yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli ac uwchgyfeirio risgiau ar lefel y rhaglen a'r prosiect. Pe bai'r rhaglen yn cael ei symud yn ei blaen, byddai'r gweithdrefnau hyn yn parhau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 14 Deddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac uwchradd.